WHIASU
Wales Health Impact Assessment Support Unit
Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru

Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru | Public Health Wales

# ASESIAD O'R EFFAITH AR IECHYD: CWESTIYNAU CYFFREDIN


1 . Beth yw Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (AEI)?
2 . Beth yw penderfynyddion ehangach iechyd a llesiant?
3. Beth yw pwrpas cynnal Asesiad o'r Effaith ar Iechyd?
4. Beth yw manteision cynnal Asesiad o'r Effaith ar Iechyd?
5. Sut mae Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn cyd-fynd â mathau eraill o ddyletswyddau sector cyhoeddus ac asesiadau effaith yng Nghymru?
6. Beth mae cynnal Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn ei olygu?
7. Sut mae cynnal Asesiad o'r Effaith ar Iechyd?
8. Pryd y gellir cynnal Asesiad o'r Effaith ar Iechyd?
9. Pa mor hir mae'n ei gymryd i gynnal Asesiad o'r Effaith ar Iechyd?
10. A oes angen unrhyw wybodaeth neu sgiliau arbenigol arnaf i gynnal Asesiad o'r Effaith ar Iechyd?
11. Sut fydda i'n gwybod a yw fy Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn addas at y diben?
12. A oes hyfforddiant ar gael i'm helpu i gynnal Asesiad o'r Effaith ar Iechyd?
13. A yw Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd yn ofyniad statudol?


## 1. Beth yw Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (AEI)?

Mae AEI yn broses asesu ***systematig, gwrthrychol ac ymarferol*** a all helpu i nodi cysylltiadau ar draws ***penderfynyddion ehangach iechyd a llesiant*** ac unrhyw effeithiau polisi, rhaglen neu brosiect ar iechyd a llesiant y boblogaeth neu grŵp penodol yr effeithir arnynt.

**Dyma'r diffiniad cyffredin y cytunwyd arno o AEI:** Diffinnir Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (AEI) fel 'cyfuniad o weithdrefnau, dulliau ac offer a ddefnyddir i farnu effeithiau posibl polisi, rhaglen neu brosiect ar iechyd poblogaeth, a dosbarthiad yr effeithiau hynny o fewn y boblogaeth." [1]

## 2. Beth yw penderfynyddion ehangach iechyd a llesiant?

Mae nifer o ffactorau yn cyfuno i effeithio ar iechyd a llesiant unigolion a chymunedau. I raddau helaeth, ***mae ffactorau fel ble rydym yn byw, cyflwr ein hamgylchedd, geneteg, ein hincwm a lefel addysg, a'n perthnasoedd gyda ffrindiau a theulu i gyd yn cael effaith sylweddol ar ein hiechyd a'n llesiant***, tra bod y ffactorau a

[1] https://phwwhocc.co.uk/whiasu/ein-gwaith/?lang=cy

ystyrir yn fwy cyffredin fel mynediad at wasanaethau gofal iechyd a'u defnyddio yn aml yn cael llai o effaith (Sefydliad Iechyd y Byd, 2017).

## 3. Beth yw pwrpas cynnal Asesiad o'r Effaith ar Iechyd?

Gall helpu i nodi camau gweithredu i wella effeithiau cadarnhaol a lleihau unrhyw effeithiau negyddol a dangos yn benodol sut y gall y cynnig ar gyfer newid neu welliant gyfrannu at leihau anghydraddoldebau, hybu iechyd a llesiant da, amgylcheddau cefnogol a pherthnasoedd cymdeithasol.

## 4. Beth yw manteision cynnal Asesiad o'r Effaith ar Iechyd?

Gall canfyddiadau ac argymhellion Asesiad o'r Effaith ar Iechyd gyfrannu at ganlyniadau gwell a mwy o werth am arian i fuddsoddwyr. Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid yn greiddiol wrth gynnal Asesiad o'r Effaith ar Iechyd. Gall ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid gan gynnwys cymunedau lleol helpu'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i ddeall a nodi risgiau posibl, lleihau neu liniaru effeithiau negyddol a gwneud y mwyaf o effeithiau cadarnhaol. Yn y pen draw, gall y broses hon arwain at wneud penderfyniadau ar sail mwy o wybodaeth a chanlyniadau gwell yn y tymor hwy.

## 5. Sut mae Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn cyd-fynd â mathau eraill o ddyletswyddau sector cyhoeddus ac asesiadau effaith yng Nghymru?

Mae Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn fframwaith unigol y gellir ei ddefnyddio i ystyried ac ymgorffori gofynion llawer o ddyletswyddau statudol presennol. Prif ffocws cynnal Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yw mynd i'r afael â'r effaith ar iechyd a llesiant grwpiau poblogaeth trwy lens penderfynyddion iechyd ehangach.

Mae gan y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol (SED) a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED) hefyd ddiben cyffredin i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a brofir gan grwpiau poblogaeth. Mae'r rhain yn canolbwyntio'n benodol ar y grwpiau hynny sydd â nodweddion a rennir (fel nodweddion gwarchodedig) neu amgylchiadau cyffredin (fel anfantais economaidd-gymdeithasol). Defnyddir Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EqIAs) fel mater o drefn fel y brif broses neu offeryn i ddeall effeithiau penderfyniadau mewn perthynas â'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a chyflawni'r dyletswyddau hyn.

Ochr yn ochr â'r SED a PSED, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gyfraith sy'n anelu at wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Mae'r broses o gynnal Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn cynnwys ystyried effaith y ffactorau hyn gan eu bod yn benderfynyddion allweddol iechyd a llesiant ac mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, i weithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd.

Felly, gall y broses o gynnal Asesiad o'r Effaith ar Iechyd alluogi nodi grwpiau poblogaeth penodol mewn perthynas â phenderfyniad neu gynnig ac asesu'r effeithiau cadarnhaol neu negyddol posibl ar y grwpiau hynny ar draws y penderfynyddion

ehangach. Gall y broses hon fodloni gofynion yr holl ddyletswyddau a nodir uchod, a gall arwain at ymchwiliad pellach i'r effeithiau posibl ar unrhyw grŵp poblogaeth a nodir.

## 6. Beth mae cynnal Asesiad o’r Effaith ar Iechyd yn ei olygu?

Mae Asesiad o’r Effaith ar Iechyd yn asesiad sy'n defnyddio ystod o dystiolaeth. Mae'n gymesur yn ei ddull gweithredu yn seiliedig ar y cynnig sy'n cael ei asesu. Mae'n defnyddio tystiolaeth ansoddol a meintiol o ffynonellau data presennol yn ogystal â thystiolaeth sylfaenol a gasglwyd yn uniongyrchol gan randdeiliaid (gan gynnwys y boblogaeth darged) i nodi effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl ar iechyd. Mae hefyd yn cynnwys gwneud argymhellion i atal a lliniaru camau gweithredu i sicrhau’r manteision iechyd a llesiant mwyaf posibl i gymuned neu boblogaeth benodol.

## 7. Sut mae cynnal Asesiad o’r Effaith ar Iechyd?

Mae gan Uned Gymorth Asesu’r Effaith ar Iechyd Cymru (WHIASU) amrywiaeth o ganllawiau, offer ac adnoddau ar gael ar ei gwefan i’ch arwain drwy’r broses o gynnal Asesiad o’r Effaith ar Iechyd.

## 8. Pryd y gellir cynnal Asesiad o’r Effaith ar Iechyd?

Gellir cynnal Asesiad o’r Effaith ar Iechyd ar ddechrau datblygiad polisi, rhaglen neu brosiect i ragweld ei effaith bosibl, i wneud y mwyaf o unrhyw effeithiau cadarnhaol a lleihau unrhyw rai negyddol; ochr yn ochr â gweithredu'r polisi, rhaglen neu brosiect i gasglu tystiolaeth wrth iddi ddod i'r amlwg; neu yn ôl-weithredol i asesu effaith polisi, rhaglen neu brosiect presennol.

## 9. Pa mor hir mae'n ei gymryd i gynnal Asesiad o’r Effaith ar Iechyd?

Bydd yr amser a gymerir i gynnal Asesiad o’r Effaith ar Iechyd yn dibynnu ar gam datblygu'r rhaglen neu'r cynnig; ei natur a'i gymhlethdod; argaeledd adnoddau; y math o ddata sydd eu hangen; a'r amserlenni gwneud penderfyniadau. Mae'r rhan fwyaf o Asesiadau o’r Effaith ar Iechyd yn cymryd oriau neu ddyddiau o ran adnoddau a threfnu i’w cwblhau.

## 10. A oes angen unrhyw sgiliau neu wybodaeth arbenigol arnaf i gynnal Asesiad Effaith ar Iechyd?

Mae gweithio mewn tîm yn rhan allweddol o'r broses. Mae cynnal Asesiad o’r Effaith ar Iechyd yn broses amlsector, aml-sgil ac amlddisgyblaethol a all gael ei harwain gan un person, un asiantaeth neu sawl asiantaeth. Mae gwaith tîm yn rhannu'r llwyth gwaith ac yn gwella cyfathrebu a dealltwriaeth rhwng y rhai sy'n gwneud penderfyniadau.

Mae cynnal Asesiad o’r Effaith ar Iechyd yn defnyddio ystod o sgiliau, gwybodaeth a phrofiad, y mae llawer ohonynt yn drosglwyddadwy o feysydd ymarfer eraill. Nid yw pob un o'r rolau yn gofyn am brofiad helaeth o gynnal Asesiadau o’r Effaith ar Iechyd ac mae llawer yn defnyddio gwybodaeth a sgiliau trosglwyddadwy megis ymchwil, polisi, rheoleiddio a chyfreithiol, cyfathrebu a chasglu data.

## 11. Sut ydw i'n gwybod bod fy Asesiad o’r Effaith ar Iechyd yn addas at y diben?

Gellid gwerthuso effeithiolrwydd Asesiadau o’r Effaith ar Iechyd mewn nifer o ffyrdd megis, yn erbyn y canlyniadau iechyd a nodwyd yn y sefydliad a/neu gynlluniau partneriaeth iechyd a llesiant lleol; mesur nifer yr Asesiadau o’r Effaith ar Iechyd a gynhaliwyd; y ffordd yr ymgymerir ag Asesiadau o’r Effaith ar Iechyd; yr effaith ar brosesau gwneud penderfyniadau yn ogystal â chynnydd tuag at wella canlyniadau iechyd y cyhoedd.

Gellir sicrhau ansawdd Asesiadau o’r Effaith ar Iechyd gan ddefnyddio canllawiau Fframwaith Adolygu Sicrhau Ansawdd WHIASU ar gyfer Asesiadau o’r Effaith ar Iechyd (HIA).

## 12. A oes hyfforddiant ar gael i'm helpu i gynnal Asesiad o’r Effaith ar Iechyd?

Mae Uned Gymorth Asesu’r Effaith ar Iechyd Cymru (WHIASU) yn cynnal nifer o gyrsiau ymwybyddiaeth a hyfforddiant am ddim ar-lein ac wyneb yn wyneb Mae’r manylion ar gael yma.

## 13. A yw cynnal Asesiadau o’r Effaith ar Iechyd yn ofyniad statudol?

Rhaid i bob corff cyhoeddus y cyfeirir ato yn y Rheoliadau Asesiadau o’r Effaith ar Iechyd yn Adran 4 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 gynnal Asesiadau o’r Effaith ar Iechyd o dan yr amgylchiadau a bennir yn y Rheoliadau megis wrth wneud penderfyniadau strategol.

Fodd bynnag, mae Asesiadau o’r Effaith ar Iechyd wedi cael eu cynnal yn wirfoddol gan amrywiaeth o sefydliadau ledled Cymru ers nifer o flynyddoedd. Bydd yr asesiadau yn parhau i gael eu hannog i ddangos effeithiolrwydd prosiectau a rhaglenni ar grwpiau poblogaeth, mewn meysydd pwnc yn amrywio o Brexit, Covid-19, cynllunio, iechyd a'r amgylchedd. Mae enghreifftiau o Asesiadau o’r Effaith ar Iechyd blaenorol i'w gweld yma.

Nodyn: Nid yw’r rheoliadau sy’n ymwneud â chynnal Asesiadau o’r Effaith ar Iechyd yng Nghymru wedi’u deddfu eto. Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar y rheoliadau ar hyn o bryd. Bydd yr ymgynghoriad yn cau ar 29 Mawrth 2024.

## Adnoddau pellach

Mae gwefan WHIASU yn cynnwys amrywiaeth o adnoddau gan gynnwys Asesiadau o’r Effaith ar Iechyd blaenorol, astudiaethau achos, canllawiau ymarfer, rhestrau gwirio a hyfforddiant.